Credwn mewn byw cyn marw

© Cymorth Cristnogol 2008

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851
Rhif cwmni 5171525

Wythnos Cymorth Cristnogol
11-17 Mai 08

Gweddïau a myfyrdodau ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol.

Dduw tragwyddol,
Llanw fi â'th Ysbryd,
Ac anfon fi allan i wneud gwahaniaeth
l'r di-lais; y diymadferth
a'r tlawd.
Helpa fi i sylweddoli
Fy mod yn sefyll gyda phawb sy'n ceisio cyfiawnder
Ac yn mynd allan yn nerth dy Ysbryd.
Defnyddia fy ngweddïau, fy amser
a'm gweithgarwch yr wythnos hon
l gyflawni pethau rhyfeddol.
Er mwyn dy bobl,
Ac er gogoniant i'th enw.
Amen.

Arglwydd Iesu, fe'th eneiniwyd i ddwyn newydd da
i'r rhai oedd ei angen,
i gyhoeddi rhyddid i'r rhai oedd yn gaeth
oherwydd anghyfiawnder,
i adfer iechyd a chyflawnder
i'r holl fyd.
Fe gymeraist ochr y gorthrymedig.
A chyhoeddaist flwyddyn
ffafr yr Arglwydd.
Roedd gweithredu yn ganolog i'th weinidogaeth.
Atgoffa ni o'r criw anghymwys a gasglaist o'th gwmpas i gyflawni gwaith dy gariad,
a grymusa ni i fod yn newydd da
fel bod dy deyrnas yn dod a'th ewyllys
yn cael ei wneud
ar y ddaear fel yn y nef.
Amen.

'Wrth wraidd yr efengyl Gristnogol y mae uniaethiad gyda phob creadur byw, ac esiampl o ffordd wahanol i oresgyn terfynau. Nid trwy eu dymchwel, ond trwy eu cofleidio a'u trawsffurfio. Ni chwiliodd Iesu am ddioddefaint ac nid oedd yn ei fawrygu, ond fe ddewisodd ei gymryd yn hytrach na'i rhoi i eraill. Y mae arwydd y bara a'r gwin ar fwrdd y cymun yn atgoffâd i ni, fel y mae'r enfys i Dduw, nad oes gennym fywyd ar wahân i bob creadur byw arall, mai creaduriaid ydym ac nid creadur, a bod yr hyn a rhoddir, ac sy'n cael ei rhoi i fyny mewn cariad, byth yn cael ei golli na'i wastraffu.'
O Sharing the Blessing, Kathy Galloway, SPCK/Cymorth Cristnogol ffoniwch 020 2084 4646 i archebu copi o'r gyfrol newydd hon gan Cymorth Cristnogol

'Fel gwraig, rwy'n teimlo'n dda iawn. Rwy wedi dysgu siarad. Rwy'n hyderus. Mae gen i gryfder yn fy nghalon. Roeddem yn arfer casglu dŵr mewn llestri mawr, ond doeddwn i byth yn rhoi rhwyd drostynt. Roeddem yn arfer mynd i'r toiled heb wisgo sandalau. Nawr rydym yn eu gwisgo ac yr ydym yn golchi'n dwylo gyda sebon. Y mae'r teulu i gyd yn hapus oherwydd bod gennym ddŵr da a diogel am sawl mis yn y flwyddyn.'

Minu Basar o Bangladesh oedd yn gorfod croesi afon lydan, a pheryglus ar adegau, gan deithio hyd at 10km i brynu dŵr yfed i'w theulu. Ers ymuno â'r pani parishad (cyngor dŵr) lleol, mae hi wedi dysgu sut i gasglu a storio dŵr *glaw yn ddiogel. Cefnogir y cynghorau hyn gan Canolfan Astudiaethau Pellach Bangladesh (BCAS), un o bartneriaid Cymorth Cristnogol.*

Deg peth i'w wybod am Cymorth Cristnogol

1. Credwn mewn bywyd cyn marwolaeth - rydym yn frwd dros ddiwreiddio tlodi.
2. Rydym yn ariannu gwaith datblygu tymor hir, yn ymateb i argyfyngau, ac yn herio'r sustemau anghyfiawn sy'n gwneud, ac yn cadw pobl yn dlawd.
3. Ni yw asiantaeth datblygiad swyddogol 41 o enwadau eglwysig yn y DG ac Iwerddon.
4. Rydym yn helpu pobl o bob, neu ddim, ffydd.
5. Credwn mewn helpu pobl i ddod o hyd i'w atebion parhaol eu hun i dlodi.
6. Rydym yn gweithio trwy fwy na 600 o bartneriaid - mudiadau lleol - mewn tua 50 gwlad.
7. Heriwn y rhai sydd â grym i newid yr hyn sy'n cael effaith andwyol ar gymunedau tlawd, fel rheolau masnach rhyngwladol a newid hinsawdd.
8. Nid ydym yn rhoi arian i lywodraethau – gweithiwn yn uniongyrchol gyda mudiadau lleol yn y fan a'r lle.
9. Rydym yn gwario arian lle mae'r angen mwyaf. Am bob £1 a roddwyd yn 2006/7, defnyddiwyd 83c ar wariant elusennol uniongyrchol. Defnyddiwyd yr 17c arall i godi'r £1 nesaf.
10. Ceir mwy o wybodaeth ar **www.caweek.org.uk** neu trwy ffonio 020 2084 4646

Sut mae eich arian yn helpu trawsffurfio cymunedau tlawd

Argyfyngau – 30%
Datblygiad tymor hir – 40%
Ymgyrchu, addysgu a chodi llais dros y tlawd – 13%
Codi arian – 16%
Rheoli'r elusen – 1%



cymorth cristnogol

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525